Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# POLISI RHEOLI GWASTRAFF

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r Polisi Rheoli Gwastraff yn mynegi ymrwymiad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ddull cynaliadwy tuag at reoli a chael gwared â gwastraff, fel rhan annatod o'i gweithgareddau. Mae'n dangos ein hymrwymiad i welliant parhaus mewn arferion amgylcheddol.

## 2. Diffiniad

Gellir diffinio gwastraff fel ***"unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r daliwr yn cael gwared ag ef, yn bwriadu cael gwared ag ef neu y mae disgwyl iddo gael gwared ag ef".***

## 3. Polisi

Mae rheoli cael gwared â gwastraff yn brif her economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Nod y polisi hwn yw mynd i'r afael â **chyfrifoldeb cyfreithiol** y Brifysgol i ddefnyddio'r hierarchaeth wastraff, fel a ganlyn: **LLEIHAU** *(y dewis gorau)*, **AILDDEFNYDDIO, AILGYLCHU, ADFER, TIRLENWI** *(y dewis gwaethaf).*

Anelwn at sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag ac yn mynd ymhellach na'r holl ofynion cyfreithiol mewn perthynas â rheoli gwastraff. Gwelwn reoli gwastraff fel mater o adnoddau amgylcheddol ac ailgylchu sydd yn rhan annatod o'n gweithgareddau. Dangoswn ein hymrwymiad i welliant parhaus mewn arferion amgylcheddol drwy:

i. Geisio lleihau creu gwastraff drwy ddefnyddio arferion caffael cynaliadwy. Felly y dewis pwrcasu, lle'n ymarferol, fydd o blaid y nwyddau a'r gwasanaethau hynny sy'n achosi'r niwed lleiaf i'r amgylchedd. Lle bo modd defnyddir methodoleg Dadansoddiad Cylch Bywyd (DCB) i leihau'r ôl troed carbon cysylltiedig, a gostwng ailgylchu 'diwedd bywyd', yn arbennig drwy fabwysiadu, cyhyd â phosib, ailgylchu dolen gaeedig.
ii. Gwella effeithlonrwydd adnoddau yn unol â'r hierarchaeth Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu ac Adfer er mwyn osgoi Cael Gwared. Mae atal gwastraff bwyd yn un o'r gofynion allweddol.
iii. Annog ein staff a'n myfyrwyr i ystyried gwastraff fel adnodd ac felly hybu 'diwylliant' lleihau creu gwastraff ac argymell ailddefnyddio lle bo modd drwy ddefnyddio ymgyrchoedd, gwybodaeth ar wefan y Brifysgol, arwyddion priodol, cyhoeddi ei chyflawniadau mewn rheoli gwastraff, ayb.
iv. Gosod targedau ar gyfer ailgylchu a fydd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n flynyddol.
v. Rheoli gwastraff gweddillol na ellir ei ailgylchu yn ôl yr arfer amgylcheddol gorau a'r dechnoleg orau sydd ar gael (TOAG).

vi. Cynnal ymwybyddiaeth o, a chydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau, codau ymarfer (UE, DU, Cymru) perthnasol a gofynion lleol neu arbennig.
vii. Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol, er mwyn rhannu arfer da a darparu esiampl i eraill, o ran ei dull rheoli gwastraff.
viii. Gwneud pob un o'r uchod yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol a chynaliadwy, tra'n darparu gwasanaeth sy'n gyson ag arfer gorau.

**4. Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill ar bob un o gampysau Y Drindod Dewi Sant.

**5. Monitro**

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro drwy adroddiadau awdit rheolaidd ar ffrydiau gwastraff gan gontractwyr, yn ogystal â rhai archwiliadau gwastraff EMS mewnol.

**7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill**

Polisi Amgylcheddol - http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/2.0-Environmental-Sustainability-Policy-approved-21.05.15.pdf

Strategaeth Cynaliadwyedd - http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/sustainability-strategy.pdf [Page(s) 9]

Cynllun Strategol - http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/uwtsd-strategic-plan.pdf [Page(s) 2, 6]

Polisi Rheoli Risg – http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/risk-management-policy.pdf [Page(s) 1]

**8. Goblygiadau o ran Adnoddau**

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | Archwiliadau mewnol ac adroddiadau contractwyr wedi eu cynnwys yn y costau. |
| Staff | Wedi eu cynnwys o fewn y gyfarwyddiaeth gweithrediadau gyfredol. |
| Asedau | Biniau a Bagiau. |
| Partneriaid | Dim wedi eu nodi |
| Graddfeydd Amser | Adroddiad blynyddol yn y Datganiad Amgylcheddol, adroddiadau misol contractwyr. |
| Arweinyddiaeth | Pennaeth Gweithredu Cynaliadwyedd. |

**9. Asesiad Effaith**

| Goblygiad | A ystyriwyd yr effaith? (Do/Naddo) | Effaith a Adnabuwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | Mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol: e.e.<br>• Environmental Protection (Duty of Care) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 ((WSI 2003/1720) (W 187))<br>• The Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 (SI 2005/1806 W138)<br>• The Controlled Waste Regulations 1992 (SI 1992/588)<br>• Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013 (SI 2013/3113)<br>• Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | Datblygu Cynaliadwy (t.2). Dangosydd Cynaliadwyedd (t6) |
| Dadansoddiad Risg | Do | Polisi Rheoli Risg (tudalen 1.) Ymgyfreithiad |
| Cydraddoldeb | Do | Dim wedi eu nodi |
| Iaith Gymraeg | Do | Bydd y Polisi ar gael yn ddwyieithog. |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | Gweler y dolenni uchod i bolisïau cyfredol |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | Do | Bydd diweddariadau perthnasol i'r polisi yn cael eu cyfathrebu â staff a myfyrwyr drwy fwletinau a MyDay. Bydd y Polisi ar gael ar wefan Y Drindod Dewi Sant. |

**Awdur(on) y polisi:**

Graham Allen - Prif Swyddog Polisi Amgylcheddol a Chydymffurfio.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**10. Rheoli Fersiynau Dogfennau**

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm am newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Newydd | GA | 01.03.16 |
| 0.2 | Newidiadau a gynigiwyd gan Wasanaethau Corfforaethol | CG | 03/03/2016 |
| | | | |
| | | | |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Mae'r Polisi'n berthnasol i:** AU

**Dyddiad cadarnhau:** 20.06.17

**Dyddiad yn effeithiol o:** 20.06.17

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 22.06.18

**I'w gyhoeddi:** ar wefan YDDS